**Rhaglen Datblygu Proffesiynol Parhaus - Cydlynydd Mynediad (ar-lein)**

Ydych chi'n gweithio fel Cydlynydd Mynediad yn y sector creadigol ond heb gael hyfforddiant penodol ar gyfer y diwydiannau sgrin?

Rydym am wahodd **6 Cydlynydd Mynediad profiadol** i ymuno â rhaglen **Datblygu Proffesiynol Parhaus** newydd ar gyfer unigolion **sydd eisoes yn gweithio fel Cydlynwyr Mynediad** ym maes teledu.

Noder: Nid yw hwn yn gwrs hyfforddiant llawn i Gydlynwyr Mynediad.

Mae'n **gyfle datblygu proffesiynol** i ymarferwyr sydd eisoes yn gweithio fel Cydlynwyr Mynediad ac am gryfhau, ffurfioli ac ehangu eu sgiliau yn y diwydiant teledu.

Mae'r cwrs yn fenter gan ScreenSkills ac yn cael ei ariannu gan Gronfa High-end TV Skills, **gyda chymorth cwmni cynhyrchu teledu High-end.** Mae'n cael ei redeg gan TripleC.

Bydd y cwrs yn cael ei gyflwyno yn Saesneg. Os oes angen gwasanaeth cyfieithu i'r Gymraeg arnoch, rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda.

**Am bwy rydyn ni'n edrych?**

Rydym yn awyddus iawn i dderbyn ceisiadau gan Gydlynwyr Mynediad sydd wedi'u lleoli yn y mannau canlynol:

- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- Canolbarth Lloegr
- Gogledd-ddwyrain Lloegr
- Bryste / De-orllewin Lloegr

Croesewir ceisiadau o rannau eraill o'r DU, ond byddwn **yn rhoi blaenoriaeth i geisiadau** o'r rhanbarthau a gwledydd uchod fel rhan o fenter uwchsgilio i Gydlynwyr Mynediad sy'n gweithio mewn rhannau o'r wlad lle mae prinder cyffredinol o Gydlynwyr Mynediad.

**Meini Prawf Cymhwysedd**

Os ydych chi'n byw a gweithio **yn un o'r rhanbarthau neu wledydd targed:**

- Mae profiad o waith teledu'n fanteisiol, ond nid yw'n hanfodol.

- Byddwn yn ystyried ceisiadau gan unigolion sydd ag **o leiaf 3 blynedd o brofiad o weithio mewn rolau mynediad mewn meysydd eraill**.

Os ydych chi'n gweithio'r **tu allan i'r rhanbarthau a gwledydd targed:**

- Rhaid bod gennych **o leiaf 2 gredyd teledu** fel Cydlynydd Mynediad ar gynhyrchiadau teledu.

Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at bobl fyddar, anabl a/neu niwrowahanol **sydd eisoes yn gweithio fel Cydlynwyr Mynediad**, ond sydd heb gael at hyfforddiant proffesiynol strwythuredig hyd yma. Bydd Cydlynwyr Mynediad sydd wedi derbyn hyfforddiant drwy raglen Cydlynwyr Mynediad ScreenSkills hefyd yn bresenol yn ystod sesiynau'r cwrs.

<u>**Beth fydd y Rhaglen Datblygu Proffesiynol Parhaus yma'n ei gynnwys?**</u>

Bydd y rhaglen Datblygu Proffesiynol Parhaus ar-lein yma'n canolbwyntio ar gryfhau a chrisialu eich ymarfer fel Cydlynydd Mynediad, gan gynnwys:

- **Llesiant**: cefnogi llesiant pobl eraill wrth ofalu am eich llesiant eich hunan
- **Deall ffiniau rôl Cydlynydd Mynediad**: meithrin dealltwriaeth o ble mae ffiniau'r rôl yn dod i ben, a phryd y dylech weithio gydag adranau eraill yn hytrach nag ysgwyddo'r cyfrifoldeb eich hunan
- **Adnoddau Dynol (HR) ac Iechyd a Diogelwch**: Deall y gwaith mae'r adranau hyn yn ei wneud a phryd y dylech rannu pryderon â'r adrannau hyn
- **Cyfrifoldebau Diogelu**
- **Sgiliau Rheoli a Delio â Gwrthdaro**
- **Sgiliau llawrydd**, gan gynnwys:
    - Datblygu eich CV
    - Negodi cytundebau
    - Ffeindio gwaith fel gweithiwr llawrydd
- **Cyfleodd rhwydweithio** gyda Chydlynwyr Mynediad eraill a chyfranwyr gwadd o'r diwydiant.

Nod y rhaglen yw meithrin hyder, eglurder a chynaliadwyedd yn eich gyrfa bresennol fel Cydlynydd Mynediad. Cafodd y rhaglen ei llunio ar sail adborth gan Gydlynwyr Mynediad a gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant. Hefyd, bydd angen i chi gyflawni modiwlau hyfforddi ar-lein cyn i'r cwrs gychwyn.

**Sut i wneud cais**

I wneud cais am le ar y cwrs, cwblhewch y ffurflen hon gan atodi CV o'ch gwaith hyd yma.

Os nad oes modd i chi ddefnyddio Google Forms, mae croeso i chi wneud cais drwy e-bost neu fideo yn Saesneg neu Iaith Arwyddion Prydain (BSL). I wneud cais drwy e-bost neu fideo, anfonwch eich cais i:
**applications.triplec@gmail.com**

**Dylai eich cais gynnwys:**

- Eich enw a'ch manylion cyswllt
- Ydych chi'n uniaethu fel person byddar, anabl a/neu niwrowahanol?
- Eich rhanbarth/gwlad (**lle'r ydych yn byw a gweithio, NID mannau yr ydych yn fodlon teithio iddynt**)
- Datganiad byr yn amlinellu eich profiad fel Cydlynydd Mynediad (neu eich gwaith ym maes mynediad, os ydych wedi'ch lleoli yn un o'r rhanbarthau/gwledydd targed)
- Dywedwch wrthym pam yr hoffech gymryd rhan yn y rhaglen
- Manylion dau ganolwr (rhowch eu henwau, cyfeiriadau e-bost a'u rolau)
- Atodwch eich CV, yn amlinellu eich profiad a chredydau perthnasol.

Gan ein bod yn awyddus iawn i gyrraedd Cydlynwyr Mynediad sydd wedi'u lleoli yng **Nghymru, Gogledd Iwerddon, Canolbarth Lloegr, Gogledd-ddwyrain Lloegr, Bryste/De-orllewin Lloegr**, hoffem eich annog i rannu'r wybodaeth am y cyfle hwn gyda'ch rhwydweithiau.

Ar ôl rhoi ystyriaeth i'r holl geisiadau, bydd ein tîm yn llunio rhestr fer o ymgeiswyr i'w gwahodd i gyfweliad. Byddwn yn cysylltu â phob ymgeisydd i adael i chi wybod beth oedd canlyniad eich cais.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych,

Tîm TripleC